Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd, 15 Rhagfyr 2017**

**Yn bresennol:**
Yr Ysgrifennydd Parhaol (Cadeirydd)
Andrew Goodall
Tracey Burke
James Price
David Richards
Gawain Evans
Natalie Pearson
Elan Closs Stephens (Eitemau 1 – 4)
Ann Keane
Adrian Webb
Peter Kennedy
Jeff Godfrey
Dean Medcraft
James Turner
Gillian Baranski
Sarah Rhodes
Catherine Ashford

**Yn cefnogi:**
Katie Antippas
Simon Jones (Etem 1)
Des Clifford (Eitem 3)
Piers Bisson (Eitem 3)
Paul Sullivan (Eitem 4)
Sharon Cross (Eitem 5)
Angharad Reakes (Eitem 5)

**Ysgrifenyddiaeth:**
Sarita Marshall

**Perfformiad Llywodraeth Cymru**

1. **Trafnidiaeth – Heriau a Chyfleoedd [Bwrdd(17)084]**

1.1 Bu James Price, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, EPS, yn edrych yn ôl ar ei amser yn Llywodraeth Cymru gan ddiolch i'r Bwrdd am ei gefnogi a'i herio dros y blynyddoedd.

1.2 Cyflwynodd Simon Jones, Cyfarwyddwr, Seilwaith Economaidd, y tueddiadau, yr heriau a'r cyfleoedd sy'n codi ynghylch trafnidiaeth yng Nghymru.

1.3 Clywodd y Bwrdd y byddai Trafnidiaeth Cymru yn ysgwyddo amrywiol swyddogaethau yn ymwneud â thrafnidiaeth ar ran Llywodraeth Cymru. Roedd achos busnes yn cael ei ddatblygu, i ddadansoddi'r swyddogaethau i'w trosglwyddo. Cytunwyd y dylai'r achos busnes gael ei gyflwyno gerbron cyfarfod y Bwrdd yn y dyfodol agos.

2. **Adroddiad Cyllid [Bwrdd(17)077]**

2.1 Amlinellodd Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid, y sefyllfa ariannol ganol blwyddyn.

**Corfforaethol**

3. **Y Trefniadau Pontio o'r Undeb Ewropeaidd (UE) [Eitem lafar]**

3.1 Rhoddodd Des Clifford, Cyfarwyddwr Swyddfa'r Prif Weinidog, a Piers Bisson, Dirprwy Gyfarwyddwr y Trefniadau Pontio Ewropeaidd, y newyddion diweddaraf i'r Bwrdd ynghylch hynt materion sy'n ymwneud â'r Trefniadau Pontio Ewropeaidd.

3.2 Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi pedwerydd papur polisi yn y gyfres *Diogelu Dyfodol Cymru.* Enw'r pedwerydd papur oedd *Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit* ac roedd yn cyflwyno'r achos dros fuddsoddi rhanbarthol yn ogystal â'r gwersi a ddysgwyd wrth reoli polisi rhanbarthol yr UE. Cafodd tîm y ei longyfarch ar eu papurau polisi ardderchog.

4. **Strategaeth Leoli [Bwrdd (17)078]**

4.1 Rhoddodd Paul Sullivan, Pennaeth Rheoli Cyfleusterau, y newyddion diweddaraf ynghylch gweithredu Strategaeth Leoli 2015-20 a'r manteision a'r arbedion a sicrhawyd.

4.2 Byddai Grwpiau Gorchwyl yn cael eu sefydlu gyda chynrychiolwyr o fusnesau ac Ochr yr Undebau Llafur i ddatblygu'r achosion busnes dros y cynigion i resymoli gweddill yr ystad.

4.3 Cytunodd y Bwrdd y dylai ystyried yr holl benderfyniadau a wnaed hyd yma, ac edrych eto ar yr achosion dros weddill y cynigion yng nghyd-destun *Ffyniant i Bawb* a'r cynlluniau i gyflwyno Gweithio'n Hyblyg. Byddai hyn yn galluogi'r Bwrdd i gytuno ar gyfres o egwyddorion craidd y byddai'n rhaid seilio penderfyniadau arnynt yn y dyfodol.

4.4 Llongyfarchwyd Paul Sullivan a'i dîm ar y cynnydd ardderchog a wnaed hyd yma.

5 **Canlyniadau'r Arolwg Pobl [Eitem lafar}**

5.1 Cyflwynodd Natalie Pearson, Pennaeth Ymgysylltu ac Arloesi, a Sharon Cross ac Angharad Reakes o Ymchwil Gorfforaethol, ganlyniadau lefel uchel Arolwg Pobl 2017, ynghyd ag amlinelliad o'r camau i'w cymryd i roi sylw i feysydd perfformiad is.

5.2 Roedd nifer yr aelodau staff a ddywedodd iddynt ddioddef bwlio ac aflonyddu dros y 12 mis diwethaf ychydig yn is na'r ffigur ar gyfer y Gwasanaeth Sifil yn gyfan. Gofynnodd y Bwrdd am fanylion i ddangos y ffigurau ar gyfer achosion mewnol o fwlio/aflonyddu honedig yn hytrach na chan bartïon allanol.

5.3 Cytunwyd y dylid dosbarthu sleidiau'r cyflwyniad i aelodau'r Bwrdd er gwybodaeth, ac y dylai'r Bwrdd ystyried meysydd penodol i ganolbwyntio arnynt yn y flwyddyn newydd.

6. **Strwythurau Gwneud Penderfyniadau Uwch [Bwrdd (17)079]**

6.1 Cyflwynodd David Richards, Cyfarwyddwr Llywodraethu, bapur yn cyflwyno cynigion ar gyfer strwythur gwneud penderfyniadau uwch yn y dyfodol, yn unol â gofynion *Ffyniant i Bawb.*

6.2 Trafododd y Bwrdd y newidiadau arfaethedig i is-bwyllgorau'r Bwrdd, a chytunwyd y dylid oedi'r newidiadau i'r strwythur llywodraethu nes bod y Cyfarwyddwyr Cyffredinol newydd wedi'u sefydlu yn eu swyddi.

6.3 Cytunwyd, cyn dod yn ôl i'r Bwrdd, y dylid ystyried y cynnig diwygiedig mewn cyfarfod o'r Uwch Dîm.

7. **Heriau sy'n wynebu'r Bwrdd [Eitem lafar]**

7.1 Bu Adrian Webb, Cyfarwyddwr Anweithredol sy'n camu i lawr o'r Bwrdd, yn ystyried heriau'r dyfodol a sut y gallai'r Bwrdd fod am roi sylw iddynt.

**Eitemau Rheolaidd**

8 **Eitemau'r Ysgrifennydd Parhaol ac Adroddiadau Eithrio [Eitem lafar]**

8.1 Roedd eitemau'r Ysgrifennydd Parhaol a'r adroddiadau eithrio wedi cael sylw yn ystod y cyfarfod.

9 **Newyddion diweddaraf yr Is-bwyllgorau [Eitem lafar]**

9.1 Cyflwynodd Dean Medcraft, Cadeirydd y Pwyllgor Gweithrediadau, adroddiad ar y cyfarfod diwethaf, a oedd yn cynnwys y newyddion diweddaraf am waith llywodraethu a pharatoi at y dyfodol, yn ogystal ag eitemau ar recriwtio prentisiaid a chydymffurfio â Rhyddid Gwybodaeth. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi ystyried y cynigion ynghylch y strwythur gwneud penderfyniadau uwch.

9.2 Rhoddodd James Turner y newyddion diweddaraf o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar Gydnabyddiaeth Ariannol Uwch Weision Sifil. Roedd cymhareb yr Uwch Wasanaeth Sifil yn y sefydliad yn is na Llywodraethau eraill, ac fe fyddai trafodaeth bellach ar hyn yn ddiweddarach.

**Swyddfa Breifat yr Ysgrifennydd Parhaol, 19 Rhagfyr 2017**